



Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2023-2028

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Gweledigaeth.....	2
Targed	2
Proffil y Gymraeg yng Nghastell-nedd Port Talbot	6
Y Cyngor.....	6
Ardal Leol Castell-nedd Port Talbot	8
Y Cyd-destun Polisi	13
Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032	14
Gweithio mewn partneriaeth	15
Monitro.....	17
Cyllid.....	17
Cynllun Gweithredu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg	17
Mesurau Arfaethedig.....	27

Os bydd angen yr wybodaeth hon arnoch mewn print mwy neu fformat arall, cysylltwch â'r Tîm Polisi Corfforaethol ar 01639 763010 neu e-bostiwch: policy@npt.gov.uk

Cyflwyniad

Lansiwyd ein Strategaeth bum mlynedd gyntaf ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg yn 2018, ac mae'r strategaeth hon ar gyfer 2023-2028 yn cynrychioli'r diwygiad cyntaf o strategaeth y Cyngor i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Mae'r diwygiad hwn wedi rhoi sylw i'r cynnydd a wnaed yn y strategaeth gychwynol, gan adeiladu arno, a hefyd i ymrwymadau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032, yn ogystal â gwaith ein partneriaid yn hyrwyddo'r Gymraeg yn lleol.

Bu dyfodiad pandemig Covid-19 yn ergyd sylweddol o safbwynt gweithredu ein strategaeth gychwynol. Yn sgîl y sefyllfa ddigynsail honno bu cymunedau, sefydliadau parter a'r Cyngor yn wynebu heriau ac yn teimlo effeithiau ar lefel na phrofwyd erioed o'r blaen. Rydym yn dal i deimlo effeithiau'r pandemig, a gwelwn ein strategaeth ddiwygiedig ar gyfer 2023-2028 fel man cychwyn i'n hadferiad.

Rydym yn cydnabod y cyfyngiadau sydd arnom o ran cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghastell-nedd Port Talbot, ond trwy weithio gyda sefydliadau lleol, ein hysgolion a thrigolion ein cymunedau niferus, rydym yn hyderus y byddwn yn cyflawni'r ymrwymadau a amlinellir yn y strategaeth.

Er bod y strategaeth ddiwygiedig hon wedi cael ei ffurfio gan adborth a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori diweddar, yn ogystal â thrafodaethau blaenorol gyda'n cymunedau niferus, ein sefydliadau partner, ein haelodau etholedig a'n tîm o uwch-reolwyr, nid yw'n 'derfynol'.

Rydyn ni'n gweld y strategaeth fel dogfen organig; un y byddwn ni'n parhau i'w hadolygu a'i haddasu i adlewyrchu cynnydd, deddfwriaeth a pholisi newydd a diwygiedig, ac yn bwysicaf oll, adborth o'n gweithgareddau ymgysylltu Dewch i Sgwrsio, er mwyn sicrhau ei bod yn parhau'n berthnasol i'n hiaith, i'n hardal, ac i bobl Castell-nedd Port Talbot.

*“Daw'r Gymraeg o'r pridd hwn a'r ynys hon, dyma hynafiaith trigolion Prydain;
ac mae'r Gymraeg yn hardd.”*

JRR Tolkien

Gweledigaeth

Erbyn 2028 bydd yr iaith Gymraeg yn fwy clywadwy a gweladwy yn ein cymunedau ac yn cael ei defnyddio gan nifer cynyddol o bobl yn eu bywydau beunyddiol.

Targed

Fel un o ofynion y safonau hyrwyddo, mae'n rhaid i ni bennu targed (o ran canran y siaradwyr yn ein hardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal erbyn diwedd y strategaeth 5 mlynedd.

Ymddengys nad yw ein targed blaenorol o gynnydd o 1% o leiaf wedi cael ei gyflawni, yn ôl data Cyfrifiad 2021. Fodd bynnag, mae'r cynnydd yn nifer y plant sy'n ymgysylltu ag addysg cyfrwng Cymraeg, ynghyd â data'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol ar gyfer pobl 3+ oed yn awgrymu fel arall.

Yng ngoleuni hyn, mae'n briodol parhau i ddefnyddio'r targed o 1% (ar sail data'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol) yn fesur interim ar gyfer blwyddyn gyntaf y strategaeth. Bydd dadansoddiad o'r holl ddata perthnasol yn digwydd o fewn 12 mis i'w chyhoeddi, er mwyn pennu targed mwy priodol ar gyfer gweddill oes y strategaeth.

Themâu Strategol

Mae ein dull gweithredu a gyflwynir yn y ddogfen hon wedi'i strwythuro i adlewyrchu'r themâu strategol a amlinellir yn Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Gan fod y themâu hyn yn adlewyrchu'r hyn rydym ninnau'n ei gredu o ran sut mae modd hyrwyddo/hwyluso'r Gymraeg yn lleol, byddwn ni'n gweithio tuag at wireddu'r themâu canlynol

- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- Cynyddu defnydd o'r Gymraeg
- Creu amodau ffafriol – seilwaith a chynnwys

Mae'r themâu hyn, er nad ydynt yn benodol yn adlewyrchu amcanion llesiant ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2023-2028, yn cysylltu/cydweddu â phob un ohonynt, fel y nodir isod:

Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2023 – 2028

Thema Strategol 1

Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

Thema Strategol 2

Cynyddu defnydd o'r Gymraeg

Thema Strategol 3

Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Cynllun Corfforaethol 2023 - 2028

Amcan Llesiant 1

Bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.

Amcan Llesiant 2


Bod pob cymuned yn llewyrchus ac yn gynaliadwy.

Amcan Llesiant 3

Bod modd i genedlaethau'r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd lleol, ein diwylliant a'n treftadaeth.

Amcan Llesiant 4

Bod pobl leol yn fedrus ac yn cael mynediad at swyddi gwyrdd o safon uchel.



Mae'r Gymraeg yn fwy na iaith yn unig; mae'n rhan o'n bodolaeth, ein treftadaeth a'n diwylliant. Mae'n rhan o wead ein bywydau – hyd yn oed os nad yw'n eich taro ar unwaith; mae ein henwau lleoedd, ein henwau ninnau, ein hidiomau llafar, i gyd wedi'u gwreiddio yn y Gymraeg. Bydd ein Strategaeth Diwylliant a Threftadaeth, sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd, yn rhoi sylw pellach i'r cysylltiadau hyn. Bydd camau gweithredu a nodwyd fel rhan o'r strategaeth hyrwyddo hon yn cyfrannu at ein nod o gynyddu niferoedd y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r iaith, ochr yn ochr ag ategu'r cysylltiadau rhwng iaith, diwylliant a threftadaeth.

Er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn ystod oes y strategaeth fe fyddwn, yn unigol a chyda'n partneriaid, yn rhoi blaenoriaeth i feysydd allweddol ar gyfer gweithredu:

Thema Strategol 1: Cynyddu niferoedd y siaradwyr Cymraeg
Gweledigaeth: Bod mwy o bobl yn siarad Cymraeg
Meysydd gwaith allweddol <ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi gweithrediad CSGA 2022-2032 • Trosglwyddiad iaith yn y cartref • Cefnogi pobl sy'n dysgu/siarad Cymraeg
Ymhlith y camau gweithredu posibl mae: <ul style="list-style-type: none"> • Hyrwyddo manteision dwyieithrwydd/ymwybyddiaeth o iaith ymhlith teuluoedd ifanc a holl newydd-ddyfodiaid CNPT • Darparu cymorth gwaith cartref i ddisgyblion teuluoedd di-Gymraeg sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg • Archwilio'r rhesymau am y niferoedd cyfyngedig sy'n manteisio ar gyrsiau Cymraeg/addysg Gymraeg ac yn cael mynediad iddynt mewn cymunedau penodol • Darparu cyrsiau ymwybyddiaeth iaith a hyfforddiant i staff addysgu ac eraill


Thema Strategol 2: Cynyddu defnydd o'r Gymraeg
Gweledigaeth: Bod y Gymraeg yn rhan annatod o fywydau pob dydd pobl
Meysydd gwaith allweddol <ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi a hybu defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol • Ehangu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle
Ymhlith y camau gweithredu posibl mae: <ul style="list-style-type: none"> • Cynyddu'r achosion o ddefnyddio'r Gymraeg yn y Cyngor • Datblygu rhaglen o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn y Gymraeg ar draws CNPT • Defnydd cynyddol o'r Gymraeg mewn cyd-destun cymdeithasol • Gweithio mewn partneriaeth i ganfod arfer da ac adnoddau er mwyn cynyddu nifer y staff Cymraeg eu hiaith yn ein holl sefydliadau

Thema Strategol 3: Creu Amodau Ffafriol: Seilwaith a Chyd-destun
Gweledigaeth: Bod gennym amgylchedd lle mae'r iaith yn ffynnu
Meysydd gwaith allweddol <ul style="list-style-type: none"> • Cynyddu gwelededd yr iaith ar draws yr ardal • Gwreiddio'r Gymraeg yn ein holl strategaethau a chynlluniau
Ymhlith y camau gweithredu posibl mae: <ul style="list-style-type: none"> • Gweithio gyda phartneriaid i gynyddu gwelededd y Gymraeg ar draws lleoliadau, gweithgareddau a digwyddiadau hamdden, busnes a diwylliannol • Hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob datblygiad newydd • Gweithio gyda gwasanaethau i sicrhau bod y Gymraeg yn elfen allweddol ym mhob strategaeth a chynllun newydd

Proffil y Gymraeg yng Nghastell-nedd Port Talbot

Y Cyngor

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae nifer y staff sy'n nodi bod ganddynt sgiliau Cymraeg wedi parhau'n gymharol isel, at ei gilydd. Fodd bynnag, bu cynnydd bychan yn nifer y staff a nododd eu bod yn siarad ac yn ysgrifennu'r iaith yn rhugl, 137 yn 2021-2022 o gymharu â 126 yn ystod 2020-2021, ac mae cynnydd o 17 yn nifer y dysgwyr Cymraeg yn y cyngor.



	Sgiliau Cymraeg							
Cyffdiaeth/ Gwasanaeth	Siaradwr ac ysgrifennwr gweddol rhugl	Siaradwr gweddol rhugl	Siaradwr ac ysgrifennwr rhugl	Siaradwr rhugl	Dysgwr Cymraeg	Ychydig iawn o wybodaeth neu ddim gwybodaeth	Mae'n well gen i beidio â dweud	Cyfanswm
Prif Swyddogion	-	-	-	-	1	3	-	4
Swyddfa'r Prif Weithredwr								
Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol	2	4	5	1	11	77	1	101
Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd	5	2	6	1	18	64	-	96
Gwasanaethau Ariannol	3	3	2	-	10	136	1	155
Gwasanaethau Digidol	4	1	2	-	7	90	1	105
Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes								
Datblygu Addysg	5	4	12	4	38	142	4	209
Blynyddoedd Cynnar, Cynhwysiant a Phartneriaethau	4	3	6	2	31	86	6	138
Gwasanaethau Cymorth a Thrawsnewid	11	4	25	10	34	469	29	582
Amgylchedd								
Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru	2	5	9	6	19	155	1	197
Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd	7	9	12	1	60	146	6	241
Eiddo ac Adfywio	-	7	3	2	12	112	2	138
Gwasanaethau Gofal Strydoedd	9	11	13	7	32	384	6	462
Peirianeg a Thrafnidiaeth	4	3	6	2	13	107	1	136
Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai								
Gwasanaethau Busnes	-	4	2	4	9	91	2	112
Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc	11	8	15	1	55	265	1	356
Gwasanaethau i Oedolion	12	12	19	9	50	455	4	561
Cyfanswm y cyfan	79	80	137	50	400	2782	65	3593

Ardal Leol Castell-nedd Port Talbot

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae 19,210 (13.5%) o siaradwyr Cymraeg yn byw yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Ward	Nifer y bobl dros 3 oed	Nifer y bobl 3+ oed sy'n gallu siarad Cymraeg	% y bobl 3+ oed sy'n gallu siarad Cymraeg
Castell-nedd Port Talbot	142,300	19,210	13.5
Aberafan	5,700	359	6.3
Aberdulais	2,400	297	12.4
Alltwen	2,700	650	24.1
Baglan	6,800	584	8.6
Blaengwrach a Gorllewin Glyn-nedd	3,100	381	12.3
Llansawel (Dwyrain)	2,900	240	8.3
Llansawel (Gorllewin)	2,900	266	9.2
Bryn a Chwmafan	6,600	838	12.7
Bryncoch (Gogledd)	2,100	273	13
Bryncoch (De)	5,400	599	11.1
Llangatwg	1,600	192	12
Cimla a Phelenna	4,900	499	10.2
Coedffranc (Canol)	5,200	457	8.8
Coedffranc (Gogledd)	2,300	227	9.9
Coedffranc (Gorllewin)	5,200	556	10.7
Creunant, Onllwyn a Blaendulais	5,100	958	18.8
Cwmllynfell ac Ystalyfera	3,900	1,599	41
Cymer a Glyncorrwg	2,100	123	5.9
Dyffryn	3,300	330	10
Canol a Dwyrain Glyn-nedd	2,100	466	22.2
Godre'r Graig	2,100	567	27

Ward	Nifer y bobl dros 3 oed	Nifer y bobl 3+ oed sy'n gallu siarad Cymraeg	% y bobl 3+ oed sy'n gallu siarad Cymraeg
Gwaun-cae-gurwen a Brynaman Isaf	4,200	2,041	48.6
Gwynfi a Chroeserw	2,600	137	5.3
Margam a Thai-bach	7,800	655	8.4
Castell-nedd (Dwyrain)	6,100	506	8.3
Castell-nedd (Gogledd)	3,800	368	9.7
Castell-nedd (De)	4,800	460	9.6
Pontardawe	5,500	1424	25.9
Port Talbot	5,800	504	8.7
Resolfen a Thonna	5,600	599	10.7
Rhos	2,600	561	21.6
Sandfields (Dwyrain)	6,700	442	6.6
Sandfields (Gorllewin)	6,800	523	7.7
Trebannws	1,700	518	30.5

Cyfrifiad 2021

Pen uchaf Cwm Tawe a Dyffryn Aman, sy'n cynnwys wardiau fel Gwaun-Cae-Gurwen a Brynaman Isaf, a Chwmllynfell ac Ystalyfera, yw'r ardaloedd o hyd sydd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg.

Nid oes modd cymharu'n uniongyrchol rhwng Cyfrifiadau 2011 a 2021 oherwydd y newidiadau i ffiniau ym mis Hydref 2021. Fodd bynnag, trwy gymharu data wardiau penodol o Gyfrifiad 2011, mae modd creu rhyw fath o gymhariaeth.

Ward	Nifer y siaradwyr Cymraeg (2011)	Nifer y siaradwyr Cymraeg (2021)	Newid	% y siaradwyr Cymraeg (2011)	% y siaradwyr Cymraeg (2021)	Newid
Cwmllynfell ac Ystalyfera	2,008	1599	-409	49.6	41	-8.6
Creunant, Onllwyn a Blaendulais	1,156	958	-198	22.84	18.8	-4.04
Gwaun-Cae-Gurwen a Brynaman Isaf	2,352	2041	-311	57.37	48.6	-8.77
Trebannws	459	518	59	33.6	30.5	-3.1
Godre'r Graig	473	567	94	30.1	27	-3.1
Pontardawe	1,624	1,424	-200	31	25.9	-5.1
Alltwn	664	650	-14	29.5	24.1	-5.4
Rhos	588	561	-27	24.7	21.6	-3.1

Ymhlith y ffactorau sy'n cyfrannu'n hanesyddol at erydiad ieithyddol mae:

- Diffyg trosglwyddiad iaith yn y cartref
- Allfudo/Mewnfudo
- Canfyddiad negyddol o werth cynhenid yr iaith
- Diffyg ymwybyddiaeth o fanteision dwyieithrwydd
- Diffyg hyder wrth siarad Cymraeg
- Saesneg yn ymledu i ardaloedd traddodiadol y Gymraeg
- Priodasau cymysg eu hiaith
- Dylanwad pwerus Eingl-Americanaidd ar ddiddordebau plant a phobl ifanc
- Mwy o farwolaethau na genedigaethau ymhlith teuluoedd sy'n siarad Cymraeg

Fel y gwelir uchod, mae'n destun siom bod Cyfrifiad 2021 yn dangos gostyngiad yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg yn lleol, darlun a adlewyrchir ar draws y rhan fwyaf o ardaloedd Cymru.

Bu gostyngiad sylweddol yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg rhwng Cyfrifiad 2011 a Chyfrifiad 2021; roedd 20,698 (15.3%) o'r boblogaeth leol yn gallu siarad Cymraeg yng Nghyfrifiad 2011, ond 18,662 (13.5%) yn unig ddywedodd fod ganddyn nhw'r sgil iaith yma yn 2021:

	Nifer sy'n gallu siarad Cymraeg			Canran sy'n gallu siarad Cymraeg		
	2001	2011	2021	2001	2011	2021
CNPT	23,404	20,698	18,662	18	15.3	13.5
Cymru	582,368	562,016	538,296	20.8	19.0	17.3

Eglurwyd y dirywiad mewn niferoedd ar draws Cymru yn bennaf yn sgîl y gostyngiad yng nghanran y plant a'r bobl ifanc (y grŵp mwyaf tebygol o nodi gallu) y dywedwyd eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Cynhaliwyd Cyfrifiad 2021 yn ystod y pandemig ac roedd yn dilyn cyfnodau clo pryd y bu'n rhaid i blant ddysgu o bell, a phan oedd llawer o bobl yn gweithio gartref. Nid yw'n hysbys pa effaith gafodd y pandemig ar y gallu yr adroddwyd amdano gan bobl o ran y Gymraeg, na'u canfyddiad o allu pobl eraill, fel eu plant, yn y Gymraeg.

Ar ben hynny, mae cyfraddau marwoldeb, mewnfudo/allfudo a natur oddrychol sgiliau iaith i gyd yn debygol o gyfrannu at y gostyngiad yn nifer y bobl sy'n nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

Gan fod data Cyfrifiad 2021 yn dal i gael ei ryddhau, bydd y strategaeth yn cael ei hadolygu yng ngoleuni'r data ychwanegol a dealltwriaeth ohono, er mwyn sicrhau ei fod yn ymdrin â'r sefyllfa barhaus.

Yn groes i ddata'r Cyfrifiad mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn hanesyddol wedi nodi ffigurau llawer uwch na data'r Cyfrifiad, ac mae hynny'n parhau:

Castell-nedd Port Talbot						
	2011	2018	2019	2020	2021	2022
Cyfanswm y Boblogaeth	134,400	136,100	137,800	136,400	135,400	137,900
Yn gallu siarad Cymraeg	27,200	30,500	34,600	27,900	31,100	31,400
% sy'n gallu siarad Cymraeg	20.7%	22.4%	25.5%	20.5%	23%	22.8%

Er bod data Cyfrifiad 2021 yn dangos dirywiad yng nghanran y plant a'r bobl ifanc sy'n dweud bod ganddynt y gallu i siarad Cymraeg, mae data o'n cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (CYBLD), sy'n fwy cyson â data'r arolwg blynyddol o'r boblogaeth, yn dangos cynnydd yn y niferoedd sydd wedi cofrestru mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

CYBLD - Blynyddoedd N1-11			
	2011	2021	2023 (rhagamcan)
Nifer mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg	2,993	3,321	3,329
Nifer yn ysgolion CNPT	20,399	21,149	20,535
% mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg	14.7%	15.7%	16.2%

Dyma ein hysgolion cyfrwng Cymraeg:

Cynradd

Ysgol Gynradd Gymraeg Blaendulais

Ysgol Gynradd Gymraeg Castell-nedd

Ysgol Gynradd Gymraeg Cwmnedd

Ysgol Gynradd Gymraeg Cwmllynfell

Ysgol Gynradd Gymraeg Gwaun Cae Gurwen

Ysgol Gynradd Gymraeg Pontardawe

Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan

Ysgol Gynradd Gymraeg Trebannws

Ysgol Gynradd Gymraeg Tregeles

Ysgol Gynradd Gymraeg Tyle'r Ynn

Canol (3-18 oed)

Ysgol Gymraeg Ystalyfera - Bro Dur

Mae gwybodaeth fanylach am addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys bwriad i greu tair ysgol gynradd Gymraeg arall, ar gael yn ein [Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032](#).

Y Cyd-destun Polisi

Mesur yr Iaith Gymraeg 2011

Dyma wnaeth y Mesur:

- rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru – fel na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- sefydlu rôl Comisiynydd y Gymraeg, sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r Gymraeg a gwella cyfleoedd pobl i'w defnyddio;
- creu trefn ar gyfer cyflwyno dyletswyddau ar ffurf safonau iaith sy'n esbonio sut mae disgwyl i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg a chreu hawliau i siaradwyr Cymraeg;
- darparu ynghylch hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg a chynyddu defnydd ohoni mewn bywyd beunyddiol;
- darparu ynghylch ymchwilio i ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg.

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015

O dan y Rheoliadau mae safonau'r Gymraeg wedi dod yn orfodol i'r Cyngor, gyda'r nod o hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg, a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae'r Safonau, fel y'u cymhwysir i'r Cyngor, ac fel y'u ceir yn yr hysbysiad cydymffurfio, yn cwmpasu cyflwyno gwasanaeth, llunio polisi, elfennau gweithrediadol, hyrwyddo a safonau cadw cofnodion. O ganlyniad i'r safonau hyrwyddo mae'r Cyngor wedi datblygu ei Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg.

Strategaeth Cymraeg 2050

Cyhoeddwyd y strategaeth hon yn wreiddiol yn 2017, a'i diweddarau ers hynny, ac mae'n dangos gweledigaeth Llywodraeth Cymru, sef gweld "y Gymraeg yn ffynnu" trwy sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Nodir tair thema strategol allweddol er mwyn gwireddu'r uchelgais hon:

- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- Cynyddu defnydd o'r Gymraeg
- Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Mwy na Geiriau

Nod fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer cryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yw cefnogi siaradwyr Cymraeg i dderbyn gwasanaethau yn eu hiaith gyntaf.

Mae cynllun 5 mlynedd 2022-2027 wedi'i seilio ar Cymraeg 2050 ac yn adlewyrchu ei themâu strategol:

- Diwylliant ac Arweiniad
- Cynllunio a pholisïau'r Gymraeg, gan gynnwys data
- Cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu, yn awr ac yn y dyfodol
- Rhannu arfer gorau a dull gweithredu galluogol

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf hon yn fodd i helpu'r cyrff cyhoeddus sydd wedi'u rhestru yn y Ddeddf i feddwl yn y tymor hir, i gydweithio'n well â phobl a chymunedau a'i gilydd, i geisio atal problemau a dilyn dull gweithredu cyson er mwyn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Un o'r saith nod Llesiant a geir yn y Ddeddf yw 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu – cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden.'

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032

Datblygwyd yr iteriad diweddaraf hwn, Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 (CSGA), a baratowyd o dan Adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Cymru), gan gredu'n bendant mai addysg yw'r cyfrwng ar gyfer cynhyrchu siaradwyr Cymraeg y dyfodol.

Rydym ni'n credu y dylai pob plentyn elwa o'r cyfle i ddysgu, gwerthfawrogi a llunio eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg, ac felly mae addysg cyfrwng Cymraeg yn rhan hanfodol ac annatod o'r dysgu a gynigir yng Nghastell-nedd Port Talbot. Bydd gweithrediad ein CSGA yn galluogi pob dysgwr, teulu a gofalwr i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ac i ddefnyddio'r iaith yn hyderus yn eu bywyd beunyddiol.

Ein CSGA yw congfaen y weledigaeth hon, ac mae ei ddeilliannau yn manylu ar sut rydym ni'n bwriadu cefnogi addysg cyfrwng Cymraeg a'i datblygu ymhellach mewn ysgolion ac yn ein cymunedau ehangach, a sut rydym ni'n cynllunio ar gyfer twf pellach:

- Mwy o blant meithrin/3 oed yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg
- Mwy o blant dosbarth derbyn/5 oed yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg
- Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall
- Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau a asesir yn Gymraeg (fel pwnc) a phynciau trwy gyfrwng y Gymraeg
- Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol
- Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (yn unol â'r dyletswyddau a bennwyd gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018)
- Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu dysgu Cymraeg (fel pwnc) a dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Gan fod deilliannau a thargedau uchelgeisiol ein CSGA yn cwmpasu'r daith trwy addysg yn ei chrynswth nid yw'n briodol cynnwys camau tebyg yn y Strategaeth ddiwygiedig hon ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg. Fodd bynnag, gan fod y Cynllun a'r Strategaeth fel ei gilydd yn ymwneud â hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg, mae nawr yn briodol bod cyfatebiaeth agosach rhyngddynt, a bod camau cydweddus posibl yn cael eu cynnwys yn Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg yn ôl y galw.

Gweithio mewn partneriaeth

Mae ein partneriaid ar y daith i hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg yn amrywiol dros ben, o sefydliadau sydd wedi hen ennill eu plwyf i grwpiau anffurfiol, o ysgolion i fusnesau, o deuluoedd â babanod ifanc i'r rhai sydd wedi byw bywydau hir a chyflawn. P'un a ydym ni'n siarad Cymraeg neu beidio, a ph'un

a ydym ni'n hen neu'n ifanc, mae pawb ohonom yn chwarae ein rhan ar y daith hon. Gallai'r strategaeth ein helpu i gymryd camau mawr ymlaen, ond heb gyfraniad gan bawb yng Nghastell-nedd Port Talbot ni fydd yn cyrraedd y nod nac yn gwireddu ei llawn botensial.

Ein cymunedau yw ein partneriaid pwysicaf. Rydym ni'n ymwybodol bod unrhyw lwyddiant gyda'r strategaeth hon, ac unrhyw strategaeth arall, yn dibynnu ar fuddsoddiad pawb ohonom ynddi. Buddsoddiad ein hamser, ein gweithredoedd a'n cefnogaeth, cyllid ac ymrwymiad i wneud gwahaniaeth; i'r rhai sydd eisoes yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd, rhai sy'n cymryd y camau cyntaf at ddysgu Cymraeg, rhai sydd ddim yn siarad yr iaith ond sy'n cefnogi'r iaith, yn ogystal â'r rhai sy'n teimlo bod y cyfan yn wastraff amser, mae gan bawb ohonom ran i'w chwarae.

Mae dyfodol yr iaith yn egwyddor allweddol yng ngwaith llu o sefydliadau lleol. Cadarnheir eu rôl bwysig yn y strategaeth flaenorol yn yr iteriad diwygiedig hwn. Er mai'r cyrff hynny a lywodraethir gan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) (2015) yn unig sy'n destun safonau hyrwyddo, mae gan bob sefydliad ran i'w chwarae yn sicrhau bod yr iaith a defnydd parhaus ohoni yn cael eu hyrwyddo a'u hwyluso ym mhob agwedd ar fywyd beunyddiol.

Mae sefydliadau lleol, yn unigol ac fel aelodau o Fforwm Iaith Abertawe/Castell-nedd, yn parhau i chwarae rôl allweddol yng ngweithrediad y strategaeth. Wedi i'r Fforwm gael ei hailstrwythuro'n ddiweddar, mae mwy o gyfle i gydweithio mewn modd mwy strwythuredig, a bydd gwneud hynny'n rhoi sylw i rai o'r materion a amlygwyd yn y gwerthusiad.

Rydym yn dal yn ymwybodol o'r cyfyngiadau sydd arnom fel cyngor o ran dylanwadu ar niferoedd y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal. O ganlyniad, wrth ddatblygu camau gweithredol rydym wedi cadw mewn cof dair agwedd wahanol ar ein cyfrifoldebau:

- Uniongyrchol – cynlluniau, strategaethau a phrosesau mewnol y mae'r cyngor yn unig yn eu rheoli.
- Anuniongyrchol – prosesau y gall y cyngor effeithio arnynt ag ymyriadau, ond nad oes ganddo reolaeth lwyr drostynt.
- Partneriaethau – gweithio gyda sefydliadau a grwpiau i sicrhau cynnydd mewn meysydd gwaith newydd a sefydledig, a chreu agweddau cadarnhaol at y Gymraeg.

Monitro

Byddwn ni'n parhau i ddefnyddio strwythurau adrodd gweithredol sydd eisoes yn bodoli i fonitro cynnydd y Strategaeth.

Bydd cynnydd yn cael ei fonitro gan y Cabinet a chraffir arno gan Bwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau. Datblygir trefniadau monitro clir gyda'r Fforwm Iaith i osgoi dyblygu ymdrechion a sicrhau aliniad â threfniadau adrodd presennol ein partneriaid.

Ar ben hynny, bydd adroddiadau cynnydd rheolaidd i'n Grŵp Swyddogion Cymraeg mewnol, i Fforwm CSGA a Grŵp Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol y Cyngor.

Bydd y cynllun gweithredu yn cael ei adolygu'n flynyddol, a chaiff y camau gweithredu eu diwygio lle bo hynny'n briodol.

Datblygir mesurau i sicrhau bod cynnydd yn cael ei fesur yn briodol.

Cyllid

Mae angen cyllid ar bob strategaeth i fedru cyflawni eu nodau, ac nid yw'r strategaeth hon yn eithriad. Fodd bynnag, rydym ni'n ymwybodol bod cyllidebau'n ystyriaeth hollbwysig yn yr hinsawdd presennol, a'u bod i'w defnyddio'n briodol. Mae'r strategaeth hon yn cynnwys ystod o gamau gweithredu a fydd yn cael eu hariannu mewn nifer o ffyrdd; o gyllidebau a nodwyd eisoes, ag arian grant allanol, trwy ffyrdd clyfrach o weithio, a thrwy fod yn fwy creadigol fyth gydag arian sydd eisoes yn cyflawni cymaint.

Cynllun Gweithredu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg

Mae'r Cynllun Gweithredu diweddaraf hwn yn adeiladu ar gynnydd a wnaed yn ystod cyfnod y strategaeth gyntaf, 2018-2023, ynghyd ag ymateb i'r sefyllfa mae'r Gymraeg yn ei hwynebu yng Nghastell-nedd Port Talbot heddiw. Bydd y camau gweithredu'n helpu i ddatblygu Castell-nedd Port Talbot fel ardal lle gwelir yr iaith fel ffactor pwysig a pherthnasol ym mywydau beunyddiol pobl.

Fel yn ein strategaeth gychwynnol, datblygwyd y cynllun gweithredu o fewn cyfyngiadau presennol y gyllideb, er y byddwn ni'n mynd ar ôl cyfleoedd i sicrhau cyllideb ychwanegol/cyllid allanol. Cynhwyswyd nifer o gamau gweithredu sydd eisoes yn cael eu cyflawni neu'n cael eu datblygu ar hyn o bryd i hyrwyddo a hwyluso'r iaith yn lleol.

Fodd bynnag, nid yw'r camau gweithredu hyn yn ddisymud, ac fe'u cynhwysir yma i gychwyn sgwrs rydym ni'n gobeithio fydd yn ystyrllon; ar y weledigaeth a'r strategaeth ac ynghylch pa gamau gweithredu realistig a chyflawnadwy ddylai gael eu cynnwys i helpu i sicrhau dyfodol lle mae'r Gymraeg yn weladwy ac yn cael ei defnyddio gan fwy o bobl yn eu bywydau beunyddiol.

Nid camau na ellir eu newid a nodir yn y tudalennau sy'n dilyn, felly, ond rhai a fydd, ynghyd â'n targed, yn cael eu hadolygu, eu newid/dileu, ac y bydd camau newydd yn cael eu cynnwys ochr yn ochr â nhw yn ôl y galw, i adlewyrchu ein hamgylchiadau newidiol.

Thema Strategol 1: Cynyddu niferoedd y siaradwyr Cymraeg				
Maes gwaith	Cam gweithredu	Partneriaid Cyflawni	Cysylltiadau	Erbyn
Cefnogi gweithrediad CSGA 2022-2032	Hyrwyddo grŵp Facebook 'Welsh Homework Help' i'r holl ddisgyblion o deuluoedd di-Gymraeg sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg.	Fforwm Iaith Menter Iaith CNPT Gwasanaeth Addysg y Cyngor	CSGA 2022-2032 Y Cynllun Corfforaethol – WBO1	2024
	Sefydlu a hyrwyddo cyrsiau Cymraeg ar gyfer rhieni sy'n anfon eu plant i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg	Gwasanaeth Addysg / Ieuenctid y Cyngor / Y Maer Ieuenctid Fforwm Iaith Menter Iaith CNPT	CSGA 2022-2032 Y Cynllun Corfforaethol – WBO1	2025
	Hyrwyddo'r Gymraeg/addysg Gymraeg ymhlith teuluoedd di-Gymraeg i gynyddu/gefnogi ymwybyddiaeth o'r iaith.	Gwasanaeth Addysg y Cyngor Fforwm Iaith Menter Iaith CNPT	CSGA 2022-2032 Y Cynllun Corfforaethol – WBO1	2024
	Diweddarau a hyrwyddo'r llyfryn 'Manteision Dwyieithrwydd/Benefits of Bilingualism'.	Menter Iaith CNPT Gwasanaeth Addysg y Cyngor	CSGA 2022-2032 Y Cynllun Corfforaethol – WBO1	2024
	Hyrwyddo dwyieithrwydd ymhlith teuluoedd amenedigol.	Menter Iaith CNPT Gwasanaeth Addysg y Cyngor	CSGA 2022-2032 Y Cynllun Corfforaethol – WBO1 a 2	2024
Trosglwyddiad iaith yn y cartref	Nodi argaeledd, cost a lleoliad cyrsiau Cymraeg (wyneb yn wyneb ac ar-lein) a'u hyrwyddo ymhlith y trigolion	Fforwm Iaith Menter Iaith CNPT	Y Cynllun Corfforaethol – WBO3	2024
	Datblygu a hyrwyddo sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ymhlith y trigolion	Fforwm Iaith Menter Iaith CNPT	Y Cynllun Corfforaethol – WBO3	2024

	<p>Darparu sesiynau ymwybyddiaeth o dreftadaeth, diwylliant a iaith:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yng nghanol pob un o'r 3 prif dref • i deuluoedd ifanc • i drigolion newydd CNPT 	<p>Y Cyngor – Polisi Corfforaethol/Treftadaeth, Is-adran Diwylliant, Hamdden a Thwristiaeth</p> <p>Fforwm Iaith</p> <p>Menter Iaith CNPT</p>	<p>Y Cynllun Corfforaethol – WBO3</p> <p>Strategaeth Treftadaeth a Diwylliant</p>	2026
Cefnogi pobl i ddysgu/siarad Cymraeg	<p>Darparu cyfleoedd i staff y Cyngor gael mynediad at lefelau priodol o gyrsiau i ddysgwyr Cymraeg/rhai sydd am wella'u Cymraeg</p>	<p>Y Cyngor – Is-adran Adnoddau Dynol/Hyfforddiant</p>	Safonau'r Gymraeg	2024
	<p>Archwilio rhwystrau posibl sy'n atal plant o gymunedau BME a grwpiau eraill a dangynrychiolir rhag manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg, a chynyddu'r nifer sydd yn manteisio arni.</p>	<p>Y Cyngor – Polisi Corfforaethol</p> <p>Cymdeithas y Gymuned BME / CGGCNPT</p> <p>Fforwm Iaith</p>	Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol	2025
	<p>Archwilio rhwystrau posibl sy'n atal cymunedau BME a grwpiau eraill a dangynrychiolir rhag manteisio ar gyrsiau Cymraeg i oedolion, a chynyddu'r nifer sydd yn manteisio arnynt.</p>	<p>Y Cyngor – Polisi Corfforaethol</p> <p>Cymdeithas y Gymuned BME / CGGCNPT</p> <p>Fforwm Iaith</p>	Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol	2025
	<p>Creu a hyrwyddo adnoddau Cymraeg i deuluoedd a'r cyhoedd yn fwy cyffredinol</p>	<p>Y Cyngor – Polisi Corfforaethol / Is-adran Hyfforddi a Datblygu / Y Gwasanaeth Addysg</p> <p>Fforwm Iaith</p> <p>Menter Iaith CNPT</p>		2024
	<p>Datblygu/cyfeirio ymlaen at gyrsiau priodol a chefnogi staff addysgu ac eraill sy'n dysgu Cymraeg</p>	<p>Y Cyngor – Is-adran Hyfforddi a Datblygu</p> <p>Fforwm Iaith</p>	CSGA 2022-2032	2023

Thema Strategol 2: Cynyddu defnydd o'r Gymraeg				
Maes gwaith	Cam gweithredu	Partneriaid cyflawni	Cysylltiadau	Erbyn
Cefnogi a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol	Ehangu rhaglen y celfyddydau yn Gymraeg ar draws Castell-nedd Port Talbot.	Y Cyngor – Is-adran Treftadaeth, Diwylliant, Hamdden a Thwristiaeth Menter Iaith CNPT	Strategaeth Treftadaeth a Diwylliant Y Cynllun Corfforaethol – WBO 2 a 3	2026
	Hyrwyddo rhaglen y celfyddydau yn Gymraeg ymhlith staff y Cyngor a'r cyhoedd trwy gyhoeddusrwydd wedi'i dargedu a mwy cyffredinol	Y Cyngor – Is-adran Treftadaeth, Diwylliant, Hamdden a Thwristiaeth	Strategaeth Treftadaeth a Diwylliant Y Cynllun Corfforaethol – WBO 2 a 3	2026
	Archwilio cyfleoedd gyda'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd i gynyddu ymwybyddiaeth o lyfrau/ddeunyddiau Cymraeg ymhlith y trigolion	Y Cyngor – Polisi Corfforaethol, y Gwasanaeth Llyfrgelloedd/y Gwasanaeth Ieuenctid	Strategaeth Treftadaeth a Diwylliant CSGA 2022-2032	2024
	Bod y Cyngor Ieuenctid a'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn cydweithio i nodi, a lle bo modd, sicrhau stoc o lyfrau/ddeunyddiau Cymraeg addas	Y Cyngor – Polisi Corfforaethol, y Gwasanaeth Llyfrgelloedd/y Gwasanaeth Ieuenctid	Strategaeth Treftadaeth a Diwylliant CSGA 2022-2032	2025
	Archwilio cyfleoedd i gynyddu gwelededd y Gymraeg ym mhob cyfleuster hamdden a diwylliant	Y cyngor – Is-adran Treftadaeth, Diwylliant, Hamdden a Thwristiaeth/ Polisi Corfforaethol	Strategaeth Treftadaeth a Diwylliant Y Cynllun Corfforaethol – WBO2 a 3	2024
	Gweithio gyda phartneriaid i annog mwy o ddefnydd ac ymwybyddiaeth o'r iaith ym mhob clwb ieuenctid	Fforwm Iaith Gwasanaeth Ieuenctid y Cyngor	CSGA 2022-2032	2025

	Datblygu ail Glwb leuenctid Cymraeg mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol yn Nhai'r Gwaith	Gwasanaeth leuenctid y Cyngor Y Sector Gwirfoddol	CSGA 2022-2032	2024
	Archwilio gyda phlant a phobl ifanc sut mae defnyddio mwy ar y Gymraeg mewn cyd-destun cymdeithasol	Fforwm Iaith Gwasanaeth leuenctid y Cyngor/Polisi Corfforaethol	CSGA 2022-2032	2024
	Gweithio gyda phartneriaid i ganfod cyfleoedd i hybu'r Gymraeg mewn amrywiaeth o gyd-destunau cymdeithasol, e.e. bore coffi, sesiynau cerddoriaeth etc.	Fforwm Iaith Gwasanaeth leuenctid y Cyngor/Polisi Corfforaethol/ y Gwasanaeth Addysg	CSGA 2022-2032	2026
	Gweithio gyda cherddorion lleol i ddarparu sesiynau creadigol i bobl ifanc – archwilio teithiau personol ym myd cerddoriaeth Gymreig etc.	Gwasanaeth leuenctid y Cyngor	CSGA 2022-2032 Y Cynllun Corfforaethol – WBO3 Y Strategaeth Treftadaeth a Diwylliant	2024
Ehangu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle etc.	Nodi a hybu cyfleoedd amgen o ran hyfforddiant sgiliau iaith i staff y Cyngor	Y Cyngor – Polisi Corfforaethol / Is-adran Hyfforddi a Datblygu		2024
	Hyrwyddo a gwreiddio Polisi'r Cyngor ar gyfer Defnydd Mewnol o'r Gymraeg	Y Cyngor – Polisi Corfforaethol/Is-adran Adnoddau Dynol	Safonau'r Gymraeg	2024
	Datblygu, hyrwyddo a chyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i holl staff y Cyngor	Y Cyngor – Polisi Corfforaethol/Is-adran Hyfforddi a Datblygu Menter Iaith CNPT	Safonau'r Gymraeg	2028
	Annog staff y Cyngor i ailasesu eu sgiliau Cymraeg yn erbyn lefelau newydd sgiliau iaith	Y Cyngor – Polisi Corfforaethol/Is-adran Adnoddau Dynol	Y Cynllun Corfforaethol – WBO4	2026

	Annog staff y Cyngor i wneud defnydd ehangach o'u sgiliau Cymraeg o fewn y gweithle a'r tu allan	Y Cyngor – Polisi Corfforaethol/Is-adran Hyfforddi a Datblygu	Y Cynllun Corfforaethol – WBO2 a 3	2026
	Gweithio gyda'r gymuned fusnes i archwilio ffyrdd o hyrwyddo'r Gymraeg ymhlith eu staff	Y Cyngor – Datblygu Economaidd/Polisi Corfforaethol	Y Cynllun Corfforaethol – WBO2 a 3	2028
	Hyrwyddo a datblygu ymhellach sesiynau 'Hyder-ish' (gwella sgiliau iaith/hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg) ar draws yr ardal	Menter Iaith CNPT Y Cyngor – Is-adran Adnoddau Dynol / Hyfforddiant	Y Cynllun Corfforaethol – WBO2 a 3	2028
	Annog aelodau etholedig i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd, digwyddiadau, yn eu cymunedau etc.	Y Cyngor – Gwasanaethau Democrataidd/Polisi Corfforaethol/Is-adran Hyfforddi a Datblygu	Y Cynllun Corfforaethol – WBO2	2028

Thema Strategol 3: Creu Amodau Ffatriol: Seilwaith a Chyd-destun				
Maes gwaith	Cam gweithredu	Partneriaid cyflawni	Cysylltiadau	Erbyn
Cynyddu gwelededd yr iaith ar draws yr ardal	Datblygu a gweithredu Strategaeth Diwylliant a Threftadaeth newydd sy'n hybu ymwybyddiaeth, defnydd a gwelededd y Gymraeg yng Nghastell-nedd Port Talbot.	Y Cyngor – Is-adran Treftadaeth, Diwylliant, Hamdden a Thwristiaeth	Y Cynllun Corfforaethol – WBO3	2024
	Gweithio gyda'r gymuned fusnes i archwilio cyfleoedd i wneud y Gymraeg yn fwy gweladwy	Y Cyngor – Datblygu Economaidd/Polisi Corfforaethol	Y Cynllun Corfforaethol – WBO3 a 4	2026
	Hyrwyddo gwasanaeth cyfieithu Cymraeg a chyngor di-dâl Busnes Cymru, Helo Blod, ymhlith ein cymuned fusnes	Y Cyngor – Datblygu Economaidd/Polisi Corfforaethol	Y Cynllun Corfforaethol – WBO3 a 4	2024
	Sicrhau bod iaith, treftadaeth a diwylliant Cymru yn elfen allweddol o'r Cynllun Rheoli Cyrchfan sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd	Y Cyngor – Is-adran Treftadaeth, Diwylliant, Hamdden a Thwristiaeth	Y Cynllun Corfforaethol – WBO3 a 4	2024
	Gweithio gyda Chymdeithas y Gymuned BME i archwilio ffyrdd o gynyddu ymwybyddiaeth o iaith a diwylliant Cymru mewn cymunedau	Y Cyngor – Polisi Corfforaethol Cymdeithas y Gymuned BME / CGGCNPT Fforwm Iaith	Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol	2024
	Datblygu ffocws Cymraeg i ymgyrch Dewch i Sgwrsio'r Cyngor, sef Dewch i Sgwrsio yn Gymraeg	Y Cyngor – Polisi Corfforaethol		2024

	Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo fel rhan o system fonitro SPF prosiect Angor Busnes y Cyngor, h.y. casglu data allweddol, a nodi a oes angen cefnogaeth i roi arferion ar waith fel rhan o system CMS newydd Datblygu Economaidd	Y Cyngor – Datblygu Economaidd		2023
	Datblygu pecyn ‘Croeso’ i’w ddosbarthu i drigolion newydd, etc.	Y Cyngor – Polisi Corfforaethol a Phartneriaid		2025
	Cyflwyno ‘cyfrifon trigolion’ er mwyn medru teilwra’r rhyngweithio â’r Cyngor yn fwy, gan gynnwys opsiwn dewis iaith.	Y Cyngor – Gwasanaethau Digidol	Model Gweithredu’r Gwasanaethau Digidol	2028
	Archwilio dichonoldeb creu cydlynnyddu hyrwyddo’r Gymraeg i weithio gyda gwasanaethau a phartneriaid		Y Cynllun Corfforaethol – WBO3	2024
Gwreiddio’r Gymraeg yn ein holl strategaethau a chynlluniau	Datblygu a gweithredu ein polisi sgiliau iaith mewnol ar draws ein meysydd gwasanaeth	Y Cyngor – Polisi Corfforaethol/Is-adran Adnoddau Dynol	Y Cynllun Corfforaethol – WBO3	2024
	Sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog i ddylunio a chymhwyso technolegau newydd	Y Cyngor – Gwasanaethau Digidol/Polisi Corfforaethol	Model Gweithredu’r Gwasanaethau Digidol	2023
	Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chymryd i ystyriaeth wrth ddatblygu trefniadau coffáu pobl a digwyddiadau ym mholisi’r parth cyhoeddus	Y Cyngor – Polisi Corfforaethol		2024

	Cynnwys y Gymraeg fel elfen allweddol ym mhob polisi a strategaeth i'r dyfodol	Y Cyngor – Cyfarwyddwyr/ gwasanaethau Corfforaethol		2028
	Adolygu'r targed o gynnydd o 1% yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn CNPT, ar ôl dadansoddi'r holl ddata perthnasol	Y Cyngor – Polisi Corfforaethol Menter Iaith CNPT Fforwm Iaith		2024
	Edrych ar y posibilrwydd o sefydlu categori Pencampwr Cymru yng Ngwobrau mewnol Tîm CNPT y Cyngor	Y Cyngor – Polisi Corfforaethol		2023

Mesurau Arfaethedig

Thema Strategol 1 – Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

Nifer y dysgwyr sy'n cael mynediad at gyrsiau Cymraeg a ddarperir ar draws CNPT

Nifer o gopïau o'r llyfryn 'Benefits of Bilingualism' a ddsbarthwyd

% y teuluoedd y bu'r gwasanaeth amenedigol yn ymweld â nhw sy'n mynd ymlaen i ddefnyddio gwasanaethau blynyddoedd cynnar Cymraeg/dwyieithog

% staff y cyngor sy'n cael mynediad i gyrsiau Cymraeg

% staff y cyngor sy'n cael mynediad i gyrsiau gwella iaith

% y plant/oedolion BME sy'n cael mynediad i gyrsiau Cymraeg ffurfiol/anffurfiol

% y bobl (3 oed a throsodd) sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg

% y bobl (3 oed a throsodd) sy'n dweud eu bod yn siarad Cymraeg bob dydd, a bod ganddyn nhw fwy nag ychydig eiriau

Thema Strategol 2 – Cynyddu defnydd o'r Gymraeg

Nifer y digwyddiadau celfyddydau a gynhaliwyd yn Gymraeg yn CNPT

Nifer y bobl sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydau yn Gymraeg

Nifer y deunyddiau Cymraeg a ddsbarthwyd mewn llyfrgelloedd ym meddiant y cyngor

Nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n mynychu clybiau ieuenctid Cymraeg

Nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n siarad Cymraeg mewn clybiau ieuenctid dwyieithog

% staff y cyngor sydd wedi ailasesu eu sgiliau Cymraeg mewn modd cadarnhaol

Nifer/% staff y cyngor sy'n siarad Cymraeg sydd wedi'u nodi yn y cyfeirlyfr siaradwyr Cymraeg

Thema Strategol 3 – Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Nifer y busnesau sydd wedi cysylltu â gwasanaeth cyfieithu Helo Blod a'i ddefnyddio

Nifer y pecynnau Croeso a ddosbarthwyd/gyrchwyd ar-lein

Nifer y trigolion sy'n nodi eu bod yn dewis defnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â'r cyngor

Nifer y busnesau sydd angen cefnogaeth i ddefnyddio, hyrwyddo ac arddangos y Gymraeg.